COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR DDYDD MAWRTH 21ain TACHWEDD 2000 AM 10.30 YN NHŶ CARADOG, 1-6 ST ANDREWS PLACE, CAERDYDD CF10 3BE

Presennol:

Y Comisiwn	Ysgrifenyddiaeth
Yr Athro E Sunderland (Cadeirydd)	Mr R Knight (Ysgrifennydd)
Mr E F L FitzHugh (Dirprwy Gadeirydd)	Mr S Halsall
Mrs S Smith (Aelod)	Mr D Carr

1. Cofnodion o gyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 26ain Hydref 2000

1.1 Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diwethaf yn amodol ar rai mân newidiadau.

2. Materion yn codi

2.1 Holodd y Cadeirydd beth oedd y sefyllfa gyda'r arolwg polisi. Nododd yr Ysgrifennydd bod Mr Frank Cuthbert wrthi ar hyn o bryd yn ailysgrifennu adrannau ohono. Fodd bynnag, nid oedd yr adrannau hyn yn uniongyrchol berthnasol i'r Comisiwn.

3. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yng Nghlunderwen - drafft cyntaf o'r Adroddiad Cynigion Drafft

3.1 **Cytunwyd** ar yr adroddiad Cynigion Drafft. Byddai hwn yn awr yn cael ei gyfieithu a'i gyhoeddi.

4. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn Llangollen - adroddiad ar gynnydd.

4.1 Nododd yr Ysgrifennydd ei fod wedi derbyn llythyr oddi wrth Frank Cuthbert o'r Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno i ddarparu arian ychwanegol i'r Comisiwn ar gyfer contractio ymgynghorwyr ariannol.

4.2 Roedd Cyfreithiwr y Trysorlys wedi gwneud cyflwyniad ffurfiol ar ran y Comisiwn a hefyd wedi cynghori'r Comisiwn ar ddrafftio llythyr i Gyngor Sir Ddinbych yn eu hysbysu bod y Comisiwn yn parhau â'r arolwg yn unol â chyfarwyddiadau'r Cynulliad Cenedlaethol. Roedd y llythyr hefyd yn hysbysu Cyngor Sir Ddinbych bod gwahoddiad y Comisiwn i gyfarfod cychwynnol yn parhau ar agor. Ni dderbyniwyd ateb hyd yn hyn oddi wrth y Cyngor. Nodwyd pryder y byddai'r oedi hwn yn effeithio ar yr amserlen ar gyfer yr arolwg.

4.3 Nododd yr Ysgrifennydd bod Cyfreithiwr y Trysorlys wedi cymeradwyo'r dogfennau tendro ar gyfer penodi ymgynghorwyr ariannol a chyflwynodd gopïau o'r llythyr gwahoddiad i dendro a anfonwyd at ymgynghorwyr posibl ar 17eg Tachwedd 2000 yn gofyn am ymateb erbyn 6ed Rhagfyr 2000.

4.4 Teimlwyd y dylid gohirio'r broses o recriwtio Swyddog Gweithredol i'r Comisiwn nes y byddai ymateb wedi ei dderbyn oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych ac y byddai eu safbwynt yn eglurach.

4.5 **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn trefnu cyfarfodydd cychwynnol rhwng yr Ysgrifenyddiaeth a'r Prif Weithredwyr ac y byddai'n eu hysbysu y byddai'r Comisiynwyr ar gael i gyfarfod â hwy pe bai angen.

5. Arolwg o'r ffin rhwng Bwrdeistrefi Sirol Bro Morgannwg a Rhondda Cynon Taf ym Mhontyclun - cynrychioliadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r cynigion drafft.

5.1 Nododd yr Ysgrifennydd bod y mwyafrif o'r cynrychioliadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r Cynigion Drafft wedi bod o blaid newid y ffin bresennol. Pe baent yn cael eu cynnwys gyda'r cynrychioliadau cychwynnol yna ar y cyfan byddai mwyafrif o blaid newid, er y cydnabuwyd o bosibl na fyddai'r rhai a wnaeth gynrychioliadau cychwynnol yn erbyn y newid yn teimlo'r angen i wneud cynrychioliadau pellach mewn ymateb i'r Cynigion Drafft. Nodwyd nad oedd Cynghorau Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg na Rhondda Cynon Taf wedi gwneud cynrychioliadau mewn ymateb i'r cynigion drafft.

5.2 Er y nodwyd bod nifer o'r cynrychioliadau wedi mynegi anfodlonrwydd gyda lefel y gwasanaethau a ddarparwyd i'r ardal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, teimlwyd na ellid priodoli'r sefyllfa hon i unrhyw rwystr daearyddol i lywodraeth leol effeithiol a chyfleus gan fod cysylltiadau ffyrdd da rhwng yr ardaloedd i'r de a'r gogledd o'r M4, a bod casgliadau cyffredinol yr Adroddiad Cynigion Drafft yn parhau'n ddilys.

5.3 O ran ardal pentrefan y Goedlan, a oedd wedi ei rannu gan y ffin bresennol, teimlai'r Comisiwn y dylid alinio'r ffin i gynnwys y pentrefan cyfan o fewn ardal Bro Morgannwg.

5.4 **Cytunwyd** y dylai'r adroddiad Cynigion Terfynol gael ei ddrafftio i gynnig y dylai'r ffin gael ei halinio i gynnwys holl bentrefan Y Goedlan o fewn Bro Morgannwg, ond y dylai aros heb ei newid ar gyfer gweddill ardal yr arolwg. **Cytunwyd hefyd** y dylai'r adroddiad gynnwys argymhelliad y dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf arolygu eu darpariaeth o wasanaethau er mwyn ymdrin â'r pryderon a fynegwyd.

6 Arolwg o Gymuned Cynffig - ystyriaeth o'r arolwg a gynhaliwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

6.1 Nododd Mr Halsall bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cyflwyno'u cynigion i'r Comisiwn ar 7fed Gorffennaf 2001 ar gyfer rhannu Cymuned Cynffig i ddwy Gymuned Corneli a'r Pîl. Roedd angen i'r Comisiwn nawr ystyried cynigion y Cyngor a chyflwyno adroddiad gydag argymhellion i'r Cynulliad Cenedlaethol.

6.2 Nododd yr Ysgrifennydd y cynhaliwyd ymweliad safle â'r ardal a thrwy archwiliad o'r llinell ar gyfer y ffin arfaethedig rhwng y ddwy gymuned, canfuwyd ei bod wedi ei diffinio'n eglur. Teimlai Mr Halsall y byddai'n ddefnyddiol i gynnwys manylion asedau a rhwymedigaethau Cyngor Cymuned Cynffig yn adroddiad y Comisiwn i'r Cynulliad Cenedlaethol ac y byddai'n cysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ynglŷn â hyn.

6.3 Lleisiodd Mrs Smith bryderon ynglŷn â'r cyfnod o amser a gymerodd y Comisiwn i ymdrin ag arolwg Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Esboniodd yr Ysgrifennydd bod adnoddau'r Ysgrifenyddiaeth dros y misoedd diwethaf wedi cael eu cyfeirio at nifer o arolygon eraill a oedd yn eu hanterth, gan gynnwys Llangollen, ac amcangyfrifodd y byddai gwaith arolygu cymunedol yn y dyfodol yn cael ei raglennu ymlaen llaw.

6.4 **Cytunwyd** i barhau ag adroddiad drafft o argymhellion y Comisiwn a fyddai'n cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Comisiwn.

7 Cynllun Gweithredol Drafft ac Amcangyfrifon Cyllidebol ar gyfer 2001/02

7.1 Nododd yr Ysgrifennydd bod y cynllun gweithredol yn dilyn yr un fformat â'r blynyddoedd diwethaf. Roedd problem gyda'r cyd-destun strategol oherwydd absenoldeb yr Arolwg Polisi. Teimlai Mrs Smith y byddai'n ddefnyddiol i gynnwys cyfeiriad at ymweliadau safle'r Comisiynwyr yn yr adran yn ymwneud ag arolygon ardaloedd sirol. Nodwyd hefyd y dylid newid y cyfeiriad at arolwg ffin Llangollen yn wyneb y ffaith bod y Comisiwn yn parhau â'r arolwg.

7.3 Nododd Mr Halsall ei fod wedi cynnwys treuliau annisgwyl yn y categorïau cyllidebol ar gyfer 2001/02. Roedd hefyd wedi gwneud darpariaeth yn y gyllideb TG ar gyfer gwasanaethydd newydd yn lle'r hen un a fyddai'n chwe blwydd oed y flwyddyn nesaf o ystyried mai 5 mlynedd yw oes cydnabyddedig gwasanaethydd. Gofynnodd y Comisiynwyr i'r Ysgrifenyddiaeth sicrhau cyllidebau Teithio a Chynhaliaeth a Chyfreithiol digonol i'r Aelodau ar gyfer unrhyw waith a ragwelwyd mewn perthynas ag arolwg Llangollen.

8 Costau Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2000

8.1 Ystyriodd y Comisiwn gostau'r CCB. Tynnodd yr Ysgrifennydd sylw at gostau cymharol uchel gosod hysbysiad cyhoeddus i hysbysebu'r CCB yn y Western Mail a gofynnodd a oedd hyn yn angenrheidiol. Teimlai'r Cadeirydd, pe bai'r CCB y flwyddyn nesaf yn cael ei gynnal yng ngogledd Cymru na fyddai angen hysbysebu yn y Western Mail.

8.2 Nododd y Cadeirydd bod y Comisiwn wedi cael cynnig i ddefnyddio swyddfeydd Cyngor Sir Gwynedd ar gyfer y CCB nesaf. **Cytunwyd** y byddai CCB 2001 y Comisiwn yn cael ei gynnal yng Ngogledd Cymru ac y dylid cysylltu â Chyngor Sir Gwynedd i wneud y trefniadau priodol.

9 Briffio ar gyfer Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Cynulliad 29ain Tachwedd 2000

9.1 Cyflwynwyd papurau yn rhoi amserlen y Comisiwn ar gyfer y 29ain Tachwedd ac yn amlinellu'r pynciau y dylid eu cynnwys yng nghyflwyniad y Cadeirydd. Nodwyd y byddai angen i'r Cadeirydd gyfeirio at yr Arolwg Polisi fel rhan o'i gyflwyniad ac felly byddai angen cysylltu â Frank Cuthbert i ganfod pryd y byddai fersiwn gorffenedig yr Arolwg Polisi ar gael ac i gael copi cyn ymddangos gerbron y pwyllgor.

9.2 Dywedodd yr Ysgrifennydd y byddai'n bosibl cynhyrchu cyflwyniad y Cadeirydd drwy ddefnyddio'r Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gweithredol. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn drafftio cyflwyniad y Cadeirydd i'r Pwyllgor.

10 Cyfarfod o Gomisiwn Ffiniau'r DU (llythyr oddi wrth Gomisiwn Ffiniau'r Alban)

10.1 Nododd yr Ysgrifennydd bod y cyfarfod i gael ei gynnal yng Nghaeredin ar Ddydd Mawrth 13eg Chwefror 2001 am 10.30am. Mynegodd yr Aelodau bryder y byddai amser y cyfarfod yn rhy gynnar iddynt hwy fedru teithio i fyny i'r Alban ar ddiwrnod y cyfarfod. Oherwydd ymrwymiadau blaenorol, ni fyddai'n bosib i'r Cadeirydd na'r Dirprwy Gadeirydd deithio i Gaeredin ar y noson cyn y cyfarfod.

10.2 **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn cysylltu gyda Comisiwn Ffiniau'r Alban i weld a fyddai'n bosibl iddynt symud amser y cyfarfod i fod yn ddiweddarach yn y dydd.

11 Unrhyw Fater Arall

11.1 Esboniodd yr Ysgrifennydd y bu peth dryswch yn ddiweddar ynglŷn â'r lwfans milltiroedd cywir sy'n daladwy i Aelodau ar gyfer defnyddio cerbydau preifat ar deithiau swyddogol. Nododd ei fod wedi ymgynghori gyda'r Cynulliad Cenedlaethol a chyflwynodd lythyr oddi wrthynt yn rhoi eu hymateb a oedd yn datgan pe penderfynwyd, am resymau gweithredol, na ddylai'r Comisiynwyr fod yn rhan o drefniadau hurio ceir y llywodraeth eu bod yn fodlon i'r Comisiynwyr gael eu talu yn ôl y raddfa lwfans milltiroedd safonol ar gyfer defnyddio cerbydau preifat.

11.2 Trefnwyd y dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd nesaf y Comisiwn ar gyfer:

23 Ionawr 2001 am 10.30am
23 Chwefror 2001 am 10.30am
23 Mawrth 2001 am 10.30am